Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Little Learners / Cylch Chwarae Moosehall
Cilgant y Parc
Llanelli
SA15 3AE
Y Deyrnas Unedig

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2014**

## Cyd-destun

Mae cylch chwarae Little Learners wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Llanelli yn awdurdod lleol Sir Gâr.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant y sesiwn a chaiff plant eu derbyn o ddwy flwydd oed. Mae 22 ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n amrywio o ran eu hoedran o ddwy i dair oed ac wyth mis. Mae wyth o blant tair oed yn cael addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir yn y lleoliad ar hyn o bryd, er nad oedd pob un ohonynt yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad Saesneg gartref. Nid oes unrhyw blentyn o aelwyd Gymraeg. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pedwar aelod parhaol o staff, gan gynnwys dau arweinydd y cylch chwarae. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc. Mae arweinwyr y cylch chwarae wedi bod yn eu swydd er Medi 1996.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Medi 2013 a chan Estyn yn Nhachwedd 2007.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae cylch chwarae Little Learners yn dda oherwydd:

- mae plant yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad;
- mae medrau plant mewn Cymraeg ail iaith wedi'u datblygu'n dda iawn;
- mae ymddygiad yn y lleoliad yn dda iawn;
- mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol ac mae'n gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- mae'r lleoliad yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da ar gyfer pob un o'r plant; ac
- mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael ac mae ansawdd yr adnoddau yn dda ar y cyfan.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae gwaith tîm effeithiol ac ethos cadarnhaol iawn yn creu awyrgylch hapus a phwrpasol ar gyfer dysgu;
- mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella;
- mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol a rhoddir ffocws cryf ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd a medrau Cymraeg plant;
- mae gan y lleoliad hanes da o wella safonau a darpariaeth ar gyfer plant; ac
- mae ganddo ystod o bartneriaethau llwyddiannus y mae'n eu defnyddio'n dda i wella deilliannau ar gyfer plant.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau datrys problemau a medrau meddwl plant

A2 Ffurfioli asesiadau wrth i blant gychwyn er mwyn darparu man cychwyn mesuradwy y gall ymarferwyr asesu'r cynnydd a wna plant ohono

A3 Darparu cyfleoedd gwell i blant ddatblygu ymwybyddiaeth o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy

A4 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn hylaw a nodi'n glir feysydd i'w gwella sy'n bwydo i mewn i gynllun gweithredu'r lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau parhaus ac maent yn dangos llawer o ymroddiad a chymhelliant i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus am eu chwarae ac yn esbonio i ymwelydd beth maent yn ei wneud a pham. Maent yn cynnwys manylion addas ac yn defnyddio geirfa ddatblygedig, er enghraifft wrth ddisgrifio parti pen-blwydd y maent yn ei gynllunio. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb iddynt yn briodol. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn cynnal diddordeb yn eu cynnwys am gyfnod parhaus. Mae llawer o blant yn galw i gof storïau y maent wedi gwrando arnynt ac yn gwybod beth sy'n dod nesaf mewn stori gyfarwydd. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau yn ymwneud â'r cynnwys ac yn rhoi atebion synhwyrol a manwl weithiau. Mae bron pob un o'r plant yn trin llyfrau yn ofalus. Maent yn dal y llyfr y ffordd gywir ac yn troi'r tudalennau'n gywir. Mae pob un o'r plant yn adnabod eu henw eu hun mewn ffurf ysgrifenedig ac yn dewis hyn i gofrestru bob bore. Mae tua hanner y plant yn defnyddio ystod o offer creu marciau yn annibynnol. Mae'r plant hyn yn deall bod diben i ysgrifennu ac maent yn gwneud nodiadau o bethau pwysig i'w cofio, fel apwyntiadau gwallt ac archebion sy'n cael eu cymryd yn y caffi.

Gall mwyafrif o blant adrodd ac adnabod rhifau hyd at 10 ac mae rhai ohonynt yn cyfrif y tu hwnt i 10. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio rhifau yn naturiol mewn gweithgareddau bob dydd ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dysgu rhigymau a chaneuon rhif. Mae llawer o blant yn defnyddio'r iaith fathemategol gywir wrth gymharu hydoedd ac yn nodi'r mwyaf a'r lleiaf wrth gymharu symiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd addas o gyfleoedd i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) fel teganau rhaglenadwy, camerâu a dyfeisiau recordio. O ganlyniad, mae eu medrau'n datblygu'n briodol.

Mae gan lawer o blant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn rholio ac yn dal cylchynau, yn neidio, yn hopian a sgipio ac yn osgoi ei gilydd mewn gêm i ddal cynffonnau. Mae rhai plant yn dechrau datrys problemau, er enghraifft wrth gynllunio parti pen-blwydd ar gyfer ffrind. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae medrau meddwl a medrau datrys problemau plant yn gyffredinol.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau Cymraeg da iawn. Maent yn ymateb i orchmynion yn briodol, yn ateb i ddangos eu presenoldeb ac yn enwi lliwiau cyffredin yn Gymraeg. Pan ofynnir cwestiynau iddynt am y tywydd, maent yn rhoi ateb sy'n disgrifio'r tywydd yn gywir. Mae rhai plant mwy abl yn ateb gan ddefnyddio brawddeg lawn.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac maent yn ymgynefino'n gyflym ac yn fodlon ag arferion sefydledig. Maent yn hyderus ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn hyderus ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau am gyfnod sylweddol ar dasgau, fel gwneud patrymau gyda phegiau a chwblhau jig-sos.

Mae ymddygiad plant yn dda iawn, y tu mewn i'r lleoliad ac wrth ddefnyddio'r ardal leol. Maent yn foesgar a chwrtais at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac yn dangos ystyriaeth at deimladau ei gilydd, yn aml heb gymorth oedolyn. Mae pob un o'r plant yn helpu i dacluso pan ofynnir iddynt wneud hynny; maent yn defnyddio offer yn ofalus ac yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd.

Yn ystod amser byrbryd, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau cymdeithasol da. Maent yn dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' ac maent yn ymwybodol o'r angen am hylendid da.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau chwarae yn hyderus ac yn dal ati i ganolbwyntio ar dasg yn dda. Pan gyflwynir thema newydd, cânt eu cynnwys yn addas mewn cynllunio a gwneud dewisiadau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu buddiol i blant wedi'u seilio ar themâu priodol sy'n aml yn gysylltiedig â hoff stori. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ysgogol ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i wella profiadau dysgu plant. Er enghraifft, roedd yr ymweliad â'r siopau lleol i brynu'r ffrwythau i'w blasu wedi'i gysylltu â stori ac fe wnaethant ymweld â'r swyddfa bost i ysgrifennu ac anfon llythyr atyn nhw eu hunain.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i chwilio am arwyddion o'r gwanwyn a siarad amdanynt wrth gerdded i'r ardal y maent yn ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau corfforol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo hoffter at lyfrau a storïau yn llwyddiannus trwy ddarparu cornel ddarllen gyfforddus a deniadol, sy'n cynnwys cyflenwad da o lyfrau. Maent yn newid llyfrau yn rheolaidd i sicrhau bod plant yn cynnal diddordeb yn y gornel ddarllen ac yn gwneud defnydd da ohoni. Rhoddir cyfleoedd addas i blant ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar, fel cymryd archebion yn y caffi a threfnu apwyntiadau yn y salon trin gwallt.

Mae'r lleoliad yn datblygu medrau rhifedd plant yn llwyddiannus trwy ddarparu llawer o gyfleoedd da i blant gyfrif gan ddefnyddio rhigymau a chaneuon ac adnabod rhifau trwy ddefnyddio gemau a jig-sos. Mae plant yn defnyddio darnau arian go iawn yn y caffi ac fe gânt eu hannog i godi tâl am eitemau a rhoi newid. Fodd bynnag, nid yw

cyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau plant wedi'u datblygu cystal.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da iawn i blant ddatblygu medrau corfforol trwy ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon ar y safle. Defnyddiant ystod addas o offer a gweithgareddau cerddorol sy'n briodol i oedran yn dda i annog plant i fod yn weithredol yn gorfforol a datblygu cyd-drefniant a rheolaeth dda.

Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae arferion dosbarth fel amser cylch ac amser byrbryd yn rhoi cyfleoedd da i blant glywed yr iaith Gymraeg ac ymateb iddi. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant Cymru a'i thraddodiadau trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a defnyddio caneuon Cymraeg yn eu cyngherddau.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr arweiniol yn y lleoliad yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y lleoliad reolau ac arferion sefydledig. Mae'r holl ymarferwyr yn atgyfnerthu'r rhain yn dda trwy gydol pob sesiwn. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel a saff ac maent yn frwdfrydig i ddysgu. Mae'r cysondeb hwn yn sicrhau bod ymddygiad plant yn cael ei reoli'n hynod effeithiol hefyd.

Mae rhediad da i'r sesiynau ac mae ymarferwyr yn defnyddio ystod effeithiol o arddulliau a dulliau gwahanol i gynnal diddordeb plant. Maent yn trefnu'r sesiwn yn effeithiol fel bod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau y gall plant eu dewis drostynt eu hunain a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion. Mae gan ymarferwyr berthynas gadarnhaol gyda phob un o'r plant. Maent yn adnabod eu plant yn dda iawn, maent yn ymatebol i'w hanghenion ac yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gamu'n ôl i alluogi'r plant i ddarganfod drostynt eu hunain. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o holi i ymestyn dysgu plant.

Mae'r lleoliad yn defnyddio system briodol ar gyfer asesu cyrhaeddiad a lles plant. Mae ymarferwyr yn monitro pa mor dda yw cynnydd plant ar sail arsylwadau defnyddiol yn rheolaidd. Mae deilliannau'r arsylwadau hyn yn llywio cynllunio'r camau dysgu nesaf ar gyfer pob plentyn unigol yn briodol.

Mae adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd plant. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn rhoi adborth rheolaidd a gwerthfawr i rieni am yr hyn y mae eu plentyn wedi'i wneud yn ystod y dydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau da ar waith i hyrwyddo byw yn iach a threfniadau da iawn i sicrhau bod y plant yn gwneud ymarfer corff trwy weithgareddau cynlluniedig gan ddefnyddio'r cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan i'r ganolfan hamdden.

Mae'r lleoliad yn annog plant i wneud perthnasoedd cadarnhaol ac mae'n meithrin goddefgarwch a pharch yn llwyddiannus. Mae trefniadau ymsefydlu da yn helpu

plant i ymgynefino mewn amgylchedd newydd yn gyflym. Ceir cyswllt dyddiol gyda rhieni i roi adrodd yn ôl am unrhyw bryderon.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, rhannu offer a chymryd gofal am adnoddau yn effeithiol. Er enghraifft, mae pob un o'r plant yn tacluso yn ystod y sesiwn.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ymdeimlad o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas trwy wneud defnydd effeithiol o ymweliadau â'r amgylchedd lleol. Defnyddiant y pwll a'r parc lleol yn effeithiol i ddilyn newidiadau tymhorol ac annog y plant i sylwi ar natur a siarad amdani. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddeall am ddatblygiad cynaliadwy.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae systemau priodol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gymorth addas i blant a'u teuluoedd ac maent yn defnyddio'r cymorth hwn yn effeithiol i gefnogi anghenion plant yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn creu ethos cyfeillgar a chynhwysol ac mae'n sicrhau bod plant yn cael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth ac mae gweithdrefnau da ar waith i helpu plant i ddatblygu agweddau goddefgar. Mae gan y lleoliad nifer ddigonol o ymarferwyr â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Caiff yr adeilad ei gynnal a chadw'n dda ac mae'n ddiogel. Mae ystod eang o feysydd dysgu sy'n cael eu cefnogi gan adnoddau o ansawdd da. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae'r ardal dan do yn olau a chroesawgar. Ceir arddangosfeydd lliwgar sy'n gysylltiedig â themâu ac mae'r rhain wedi'u labelu yn ddwyieithog i annog y plant i adnabod print yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o'r offer yn hygyrch ac wedi'i labelu'n glir.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac maent yn ei rhannu gyda staff a rhieni yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n dda i greu ethos cadarnhaol ac maent yn cynnwys pob aelod o staff yn hyn yn effeithiol. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o staff ac yn herio tanberfformio yn briodol.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r rhain wedi'u diffinio'n glir iawn ac mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gyda

synnwyr clir o ddiben i gyflawni nodau'r lleoliad; i ddarparu safon uchel o ofal ac addysg tra'n ymateb i anghenion sy'n newid.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio hyn yn dda i nodi anghenion hyfforddi ac maent yn ymateb i'r rhain yn gyflym. Mae arweinwyr yn cefnogi staff yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen a'u medrau o ran ei gyflwyno.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol a rhoddir ffocws addas ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i nodi meysydd i'w datblygu a chynllunio sut i gyflawni gwelliannau.

Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol. Maent hefyd yn rhagweithiol wrth chwilio am ffyrdd o wella ac maent wedi gofyn am gymorth allanol gyda materion, fel gwella medrau Cymraeg ymarferwyr. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn ystyried barn staff, rhieni a phlant ac yn ymateb yn briodol. Gwnânt ddefnydd da o ganlyniadau ymgynghoriadau blynyddol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a gwella safonau a darpariaeth.

Mae fformat yr adroddiad hunanarfarnu newydd yn rhy gymhleth ac nid yw'n cefnogi'r lleoliad i nodi ei anghenion yn glir. Er gwaethaf hyn, mae arweinwyr yn gwybod blaenoriaethau'r lleoliad yn dda ac maent wedi cynllunio ar gyfer y rhain yn briodol, ac eithrio datblygiad cynaliadwy.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Ceir partneriaethau cryf gyda rhieni. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n dda am weithgareddau a'r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy hysbysfwrdd y lleoliad a chyswllt dyddiol anffurfiol. Mae gan y lleoliad wefan ddefnyddiol lle gall rhieni gael gwybodaeth am arferion y lleoliad a gweld rhai o'r gweithgareddau y gall plant ymgymryd â nhw.

Mae'r lleoliad yn bwydo nifer o ysgolion cynradd ar hyd a lled Llanelli ac mae ganddo gysylltiadau sefydledig gydag ysgolion lleol. Mae hyn yn hyrwyddo cyfnod pontio didrafferth i blant o'r cylch chwarae i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i gael cyngor, manteisio ar hyfforddiant a datblygu adnoddau newydd.

Mae’r lleoliad yn ymweld â’r llyfrgell leol yn rheolaidd i fwynhau sesiynau adrodd stori a benthyca llyfrau. Mae hyn wedi cynyddu diddordeb plant mewn llyfrau a storïau. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’u lleoliad yn y ganolfan hamdden i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon a rhoi cyfleoedd da iawn i blant wneud ymarfer corff.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu yn dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas. Defnyddiant ymarferwyr yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod effeithiol o hyfforddiant addas. Mae systemau da ar waith i wneud yn siŵr bod ymarferwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a’u bod yn parhau i feithrin eu medrau, er enghraifft, wrth ddysgu Cymraeg. Mae hyn wedi gwella deilliannau a darpariaeth i blant.

Mae gan arweinwyr brosesau effeithiol ar gyfer cadw golwg ar wariant. Maent yn dyrannu cyllid yn briodol yn unol â blaenoriaethau’r lleoliad.

Yng ngoleuni’r deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni fydd unrhyw ddata'n cael ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Ms Jane Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Janet Rowlands | Aelod o'r tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |